OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 2560 (Cy. 169 )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *21 Medi 2000* |
| *Yn dod i rym* | - - | *22 Medi 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 50 a 63(3) o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986(**1**), ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn, diddymu ac eithrio

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymhellion Hyfforddi Athrawon (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 22 Medi 2000.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999(**3**) wedi'u diddymu.

(3) Er hynny, bydd y Rheoliadau hynny yn dal yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw berson y dyfarnwyd grant iddo o danynt os cafodd unrhyw daliad grant ei dalu gan y Cynulliad Cenedlaethol (neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan drefniadau cyfatebol a oedd yn gymwys yn Lloegr) cyn 22 Medi 2000 a bod y person yn parhau i ddilyn y cwrs y dyfarnwyd y grant mewn perthynas ag ef, neu wedi'i gwblhau.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "athro neu athrawes gymwysedig" ("*qualified teacher*") yw person sydd –

(a) yn athro neu athrawes gymwysedig yn unol â darpariaeth a wnaed gan neu o dan reoliadau a wnaed ar gyfer naill ai Cymru neu Loegr o dan adran 218 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**4**); neu

(b) yn ôl penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol neu benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn athro neu athrawes gymwysedig yn unol ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed felly;

(**1**) 1986 p.61. Diwygiwyd adran 63(3) gan baragraff 107(a) o Atodlen 19 i Ddeddf Addysg 1993 (p.35).
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/2816 (Cy.17).
(**4**) 1988 p.40. Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 (O.S. 1999/2817 (Cy.18)) a Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Lloegr) 1999 (O.S. 1999/2166) yw'r Rheoliadau cyfredol.

ystyr "cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon" ("*post-graduate teacher training course*") yw cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol i athrawon sydd –

(a) yn cael ei ddarparu mewn sefydliad achrededig yng Nghymru; a

(b) yn golygu bod person sy'n ei gwblhau yn llwyddiannus yn dod yn athro neu athrawes gymwysedig;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "sefydliad achrededig" ("*accredited institution*") yw sefydliad sydd wedi'i achredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ddarparydd cyrsiau sy'n bodloni unrhyw ddarpariaethau ynghylch cwricwla ac unrhyw feini prawf eraill a bennir o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol(**5**);

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig (o fewn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998)(**6**).

**Cymhellion i bersonau ddilyn hyfforddiant athrawon**

**3.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol dalu grantiau o dan y rheoliad hwn yn gymhellion i bersonau cymwys ddilyn cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon.

(2) Mae'r pŵer a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan baragraff (1) uchod yn cynnwys pŵer i dalu grant i berson cymwys os yw'r person hwnnw –

(a) wedi cwblhau cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus mewn sefydliad yn Lloegr;

(b) wedi cael swm llawn unrhyw randaliadau grant a oedd yn daladwy mewn perthynas â'r cyfnod pryd yr oedd yn dilyn y cwrs o dan unrhyw drefniadau a oedd yn berthnasol yn Lloegr y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i fodloni eu bod yn cyfateb i'r trefniadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn; ac

(c) wedi ymgymryd â swydd addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru.

(3) Ym mharagraffau (1) a (2), ystyr "cymwys" yw cymwys i gael cymorth i fyfyrwyr o dan reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**7**).

**Amodau**

**4.**—(1) Ni thelir unrhyw daliad o dan reoliad 3 i berson –

(a) sydd eisoes wedi cwblhau cwrs o hyfforddiant cychwynnol i athrawon cyn 1 Medi 2000 neu sy'n dilyn cwrs o'r fath a ddechreuodd cyn 1 Medi 2000;

(b) a gyflogir i addysgu mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac nad yw'n athro neu athrawes gymwysedig); neu

(c) y mae'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) o reoliad 1 yn dal yn gymwys mewn perthynas â'r person yn rhinwedd paragraff (3) o'r Rheoliad hwnnw.

(2) Ni thelir unrhyw grant o dan reoliad 3 i berson oni bai ei fod wedi gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y fath ffurf, ac ar y pryd a chan gynnwys unrhyw fanylion y gall y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu arnynt.

(**5**) Gellir cael rhestr o'r sefydliadau dynodedig cyfredol oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Linden Court, The Orchards, Ty Glas Avenue, Llanisien, Caerdydd, CF4 5DZ.

(**6**) 1998 p.31.

(**7**) 1998 p.30; Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2000 (O.S. 2000/1121) yw'r Rheoliadau cyfredol.

(3) Ni chymerir bod dim yn y rheoliad hwn yn cyfyngu pŵ er y Cynulliad Cenedlaethol i fabwysiadu meini prawf ar gyfer cymhwyster i gael grantiau o dan reoliad 3.

**Amodau Pellach**

**5.**—(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol osod gofynion y bydd grant a delir yn unol â rheoliad 3 yn ad-daladwy o danynt.

(2) Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y gellir gosod gofyniad o dan baragraff (1) –

(a) os yw'n ofyniad sydd â'r nod o sicrhau bod diben rhoi'r grant yn cael ei gyflawni;

(b) os yw'n darparu ar gyfer ad-dalu'r grant os yw'r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad grant, yn methu â bodloni unrhyw un o'r meini prawf cymhwyster a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â rhandaliad dilynol; neu

(c) os yw'n darparu ar gyfer ad-dalu grant os yw'r derbynnydd wedi rhoi gwybodaeth sy'n ffug neu yn sylweddol gamarweiniol yn ei gais am grant neu mewn perthynas ag ef.

**Swm y grant a thaliadau grant**

**6.**—(1) Rhaid i grantiau o dan reoliad 3 beidio â bod yn fwy nag unrhyw symiau y penderfynir arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Gellir penderfynu ar wahanol symiau o dan baragraff (1) ar gyfer gwahanol achosion ac amgylchiadau.

(3) Yn achos grant sy'n daladwy i berson yn rhinwedd rheoliad 3(2), rhaid i'r cyfanswm sy'n daladwy gan y Cynulliad Cenedlaethol beidio â bod yn fwy na'r gwahaniaeth rhwng swm y grant y mae wedi'i gael oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y trefniadau cyfatebol sy'n gymwys yn Lloegr a'r swm y penderfynir arno gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff (1) uchod fel yr uchafswm sy'n daladwy i berson sydd –

(a) yn cwblhau yn llwyddiannus, mewn sefydliad achrededig, gwrs o'r un disgrifiad â'r cwrs yn y sefydliad yn Lloegr;

(b) yn bodloni'r holl amodau perthnasol a geir yn y Rheoliadau hyn; ac

(c) yn bodloni unrhyw feini prawf perthnasol ar gyfer cymhwyster i gael grantiau o dan reoliad 3 a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Gall grantiau o dan reoliad 3 gael eu talu mewn un swm neu mewn unrhyw randaliadau ac ar unrhyw adegau y penderfynir arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol, a chaiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu yn benodol fod rhandaliadau yn daladwy ar ddyddiadau ar ôl i'r person ymgymryd â swydd addysgu fel athro neu athrawes gymwysedig.

(5) Yn achos unrhyw grant sy'n daladwy tra bydd person yn dilyn cwrs ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon, caiff y Cynulliad Cenedlaethol roi arian i sefydliad achrededig i'w dalu i'r person hwnnw ar unrhyw adegau a gyfarwyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**Talu cymhellion i gyrff llywodraethu ysgolion am gyflogi athrawon graddedig**

**7.**—(1) Yn unol â'r paragraffau canlynol yn y rheoliad hwn, caiff y Cynulliad Cenedlaethol dalu grantiau o dan y paragraff hwn yn gymhellion i annog cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i gyflogi personau sy'n ceisio dod yn athrawon cymwysedig drwy gwblhau'r cyfnod angenrheidiol o wasanaeth fel athro neu athrawes raddedig yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 3 i Reoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999, ac i sicrhau hyfforddiant ar eu cyfer.

(2) Bydd grantiau o dan baragraff (1) yn daladwy mewn un swm neu mewn unrhyw randaliadau, ac ar unrhyw adegau, a wêl y Cynulliad Cenedlaethol yn dda.

(3) Mae rheoliad 5 yn gymwys mewn perthynas â grantiau o dan baragraff (1) fel y mae'n gymwys mewn perthynas â grantiau o dan reoliad 3.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**)

*Rhodri Morgan*
Prif Ysgrifennydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Medi 2000

(**8**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Yr oedd Rheoliadau Addysg (Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cymru) 1999 yn darparu ar gyfer talu grantiau yn gymhellion i annog mwy o bobl i ddilyn cyrsiau ôl-raddedig o hyfforddiant athrawon yn y coleg i addysgu mathemateg neu wyddoniaeth ar lefel uwchradd. Mae Rheoliadau 1999 yn cael eu diddymu gan y Rheoliadau hyn, ac eithrio yn achos y rhai sydd eisoes wedi cael taliad grant o dan Reoliadau 1999 cyn 22 Medi 2000.

O dan y Rheoliadau newydd hyn, gall grantiau cymhelliant gael eu talu mewn perthynas â chyrsiau o'r fath ar gyfer addysgu pob pwnc. Os caiff person unrhyw randaliadau grant mewn perthynas â chwrs mewn sefydliad yn Lloegr y mae grantiau cymhelliant yn daladwy ar ei gyfer o dan drefniadau cyfochrog, mae'r Rheoliadau yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i dalu unrhyw randaliadau eraill y byddai gan y person hwnnw hawl i'w cael yn rhinwedd y Rheoliadau hyn pe bai wedi cwblhau cwrs yng Nghymru y telid grant mewn perthynas ag ef o dan y Rheoliadau hyn.

Mae yn y Rheoliadau ddarpariaeth gwbl newydd sy'n fodd i grantiau gael eu talu i annog ysgolion i gyflogi athrawon graddedig a'u hyfforddi.

Mae yna esboniad manylach ar y Rheoliadau isod.

Mae Rheoliadau 1999 yn cael eu diddymu, ond bydd unrhyw berson sydd wedi cael taliad o dan y Rheoliadau hynny yn dal yn cael ei gynnwys o dan y Rheoliadau hynny (RHEOLIAD 1).

Mae RHEOLIAD 2 yn cynnwys diffiniadau o dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Rheoliadau.

Gall grantiau gael eu talu yn gymhellion mewn perthynas â phersonau sy'n gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr er mwyn iddynt ymgymryd â hyfforddiant ôl-raddedig i athrawon mewn coleg i addysgu unrhyw bwnc (RHEOLIAD 3).

Yn RHEOLIAD 4 nodir nifer o achosion lle na all grant gael ei dalu o dan reoliad 3.

Mae RHEOLIAD 5 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu grant o dan reoliad 3 ar yr amod ei bod yn ofynnol ei ad-dalu o dan amgylchiadau penodedig.

Mae RHEOLIAD 6 yn darparu mai'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n penderfynu ar swm y grant, a all gael ei dalu mewn un swm neu mewn rhandaliadau (y gall rhai ohonynt gael eu gohirio tan ar ôl i'r person ymgymhwyso yn athro neu'n athrawes ac ymgymryd â swydd addysgu).

Gall taliadau cymhelliant gael eu talu i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir i'w hannog i gyflogi athrawon graddedig a'u hyfforddi o dan y cynllun a elwir y “Rhaglen Athrawon Graddedig” (RHEOLIAD 7).